**Cyngor Sir Ddinbych**

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Cynllunio

Dyddiad:Dydd Mercher, 22 Mai

**Adroddiad gan:** Swyddog Cynllunio (Georgia Crawley)

**Testun:** Adroddiad Materion Cyffredinol - Gwrthwynebiadau i Orchymyn Diogelu Coed Rhif 1 (2024) ar Dir yn Neuadd y Dref, Heol y Castell, Llangollen gan Gyngor Sir Ddinbych (CSDd).

## 1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1. Hysbysu Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio bod y Cyngor wedi cael gwrthwynebiad i Orchymyn Diogelu Coed Rhif 1 (2024) ar dir yn Neuadd y Dref, Heol y Castell, Llangollen a wnaethpwyd ar 31 Ionawr 2024; ac i argymell bod y Gorchymyn Diogelu Coed yn cael ei gadarnhau. Mae'r Gorchymyn Diogelu Coed yn ymwneud â diogelu un Lindyswydden (Robinia Pseudoacacia) (T1) ar y palmant o flaen Neuadd y Dref.

## 2. Adroddiad

2.1. Ar 12 Rhagfyr 2023, daeth cais Hysbysiad o Ardal Gadwraeth 03/2023/0826 i law'r Cyngor a oedd yn cynnig cyflawni gwaith lleihau arfaethedig i goron y goeden Lindyswydden (Robinia Pseudoacacia). Yr ymgeisydd oedd Cyngor Tref Llangollen.

2.2. Cafodd rhesymau am y gwaith eu nodi mewn Arolwg Iechyd a Diogelwch Coed (Rev 6.1, Sherratt Landscape Contractors Ltd, dyddiedig Mehefin 2021). Mae'r adroddiad yn nodi bod angen cyflawni gwaith ar y goeden i ddatrys diffygion sylweddol y mae modd eu hunioni, sydd yn cynnwys y brif gainc sydd wedi marw / yn marw a phren marw. Mae'r gwaith yn cynnwys cael gwared ar y pren marw, y canghennau sydd yn croesi a lleihau'r goron i liniaru colli uniondeb. Roedd yr adroddiad yn nodi y dylid cyflawni'r gwaith o fewn 2 fis.

2.3. Bu i Swyddog Coed y Cyngor adolygu'r cais am hysbysiad a chynghorwyd bod y gwaith a nodwyd o fewn yr Arolwg Iechyd a Diogelwch Coed eisoes wedi'i gyflawni yn ystod gwaith gwella parth cyhoeddus Heol y Castell 2020 (lledu'r palmentydd ayyb). Comisiynwyd y gwaith gan Wasanaethau Priffyrdd, Cyfleusterau ac Amgylcheddol Cyngor Sir Ddinbych drwy eu contractwyr a oedd yn cyflawni'r prosiect. Roedd rhaid i'r contractwyr gloddio ger y goeden ac ail-wynebu o'i chwmpas gyda resin tyllog. Ar 3 Tachwedd 2021, yn ystod y gwaith hwn, cyflawnwyd y gwaith torri/ tocio i'r goeden yn unol â'r Arolwg Iechyd a Diogelwch Coed (Rev 6.1, Sherratt Landscape Contractors Ltd, dyddiedig Mehefin 2021).

2.4. Ni chafwyd Hysbysiad o Ardal Gadwraeth gan yr Adran Gynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad cyn i'r gwaith hwn gael ei gyflawni, a fyddai ei angen oherwydd lleoliad y goeden o fewn yr Ardal Gadwraeth. Ni chafodd y Cyngor Tref, sydd yn berchennog y tir ac yn ymgeisydd cais 03/2023/0826, eu hysbysu hyd yn oed bod y gwaith wedi cael ei gyflawni.

2.5. Cafodd cais Hysbysiad o Ardal Gadwraeth 03/2023/0826 ei dynnu'n ôl gan y Cyngor Tref, oherwydd bod yr adroddiad yn hen ac felly nid oedd y gwaith wedi cael ei ystyried yn angenrheidiol gan ei fod eisoes wedi ei gyflawni yn 2021.

2.6. Yn dilyn derbyn y cais ar gyfer gwaith ychwanegol, cyflawnodd y Swyddog Coed asesiad o'r goeden a chyflwynwyd cais bod y Lindyswydden (Robinia Pseudoacacia) (T1) yn destun Gorchymyn Diogelu Coed, am fod y goeden yn bodloni'r meini prawf perthnasol ac yn gwarantu cael ei diogelu. Mae Nodiadau Archwiliad yr Ymgynghorydd Coed (TEMPO) yn cadarnhau bod y goeden yn amlwg iawn o fewn y dirwedd leol ac ei bod o werth uchel o ran amwynder, bioamrywiaeth a hanes yn yr ardal. Hefyd nododd y Swyddog Coed bod lefelau uchel o bryder gan y cyhoedd am y goeden yn ystod gwaith Heol y Castell 2020.

2.7. Mae Swyddog Coed y Cyngor Sir yn ystyried bod gwerth cyfraniad y goeden i gymeriad yr ardal yn ei gwarantu i gael ei diogelu gan Orchymyn Diogelu Coed. Drwy osod Gorchymyn Diogelu Coed ar y goeden, mae'n amlygu i'r holl bartïon sydd â buddiant, ei bod wedi'i diogelu ac yn darparu rheolaeth well o'r goeden ar gyfer y dyfodol.

2.8. Gwnaethpwyd Gorchymyn Diogelu Coed Dros Dro a chyflwynwyd copïau o'r gorchymyn i'r perchnogion a'r partïon â chanddynt fuddiant ar 31 Ionawr 2024.

2.9. Yn dilyn cyflwyno'r Gorchymyn Diogelu Coed, cafodd y Cyngor wrthwynebiad gan y Cyngor Tref. Mae'r gwrthwynebiad yn nodi bod y Cyngor Tref yn cwestiynu'r angen i osod Gorchymyn Diogelu Coed ar y goeden gan ystyried ei diogelwch presennol drwy'r Ardal Gadwraeth (wedi'i diogelu gan ddarpariaethau adran 211 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) a pherchnogaeth y goeden gan awdurdod lleol atebol.

2.10. Mae Swyddogion yn parhau o'r farn bod angen Gorchymyn Diogelu Coed am y rhesymau canlynol:

- *Mae gosod Gorchymyn Diogelu Coed ar y goeden yn briodol oherwydd ar wahân i'w rhinweddau ei hun fel coeden, a'i gwerth i'r gymuned, mae anghytundeb parhaus wedi bod ynghylch ei pherchnogaeth.*
- *Y tro diwethaf i'r goeden gael ei thocio, nid oedd yr Adran Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad a'r Cyngor Tref yn ymwybodol bod y gwaith wedi cael ei gyflawni hyd yn oed. Mae gosod Gorchymyn Diogelu Coed ar y goeden yn amlygu i'r holl bartïon sydd â buddiant ei bod yn cael ei diogelu a gobeithir y bydd yn osgoi sefyllfa fel hyn rhag digwydd eto.*
- *Mae'r diogelwch a nodir yn a211 yn cynnwys darpariaeth caniatâd mud a allai, os na fydd yr hysbysiad yn dod i sylw'r Cyngor, arwain y sawl a roddodd yr hysbysiad i gredu bod ganddynt ganiatâd i gyflawni'r gwaith. Mae'r Gorchymyn Diogelu Coed yn ychwanegu haen diogelu ychwanegol fel caniatâd eglur i gyflawni gwaith ar y goeden.*

2.11. Mewn ymateb, dywedodd y Cyngor Tref ei fod wedi derbyn bod y goeden o fewn cwrtil tir sy'n eiddo i'r Cyngor Tref.

2.12. O ystyried bod y sefyllfa yn parhau fel y byddai pan gyflawnodd Cyngor Sir Ddinbych waith ar y goeden (h.y. bod y goeden yn eiddo i'r Cyngor Tref), ystyrir y dylid cadarnhau'r Gorchymyn Diogelu Coed i sicrhau bod y diogelwch yn amlwg i'r holl bartïon sydd â buddiant. Nid yw hyn yn cwestiynu uniondeb unrhyw un o'r partïon hynny, ond yn sicrhau bod darpariaeth diogelwch well ar gyfer y goeden. Ym marn y Swyddogion, gan ystyried gwerth y goeden, nid yw rheoliadau'r Ardal Gadwraeth yn cael eu hystyried yn ddigonol i ddiogelu a byddai'n arwain at gyflwyno Gorchymyn Diogelu Coed mewn unrhyw

amgylchiadau o ystyried yr uchod.  Mae hwn yn ddiogelwch ar gyfer y goeden benodol ac nid yw'n ofyniad cynhwysfawr i'r Hysbysiad o Ardal Gadwraeth.

2.13. Os na fydd y Gorchymyn Diogelu Coed dal heb gael ei gadarnhau, bydd yn dod i ben ar 30 Mehefin 2024 (h.y. ar ôl 6 mis) ac ni fydd y goeden wedi'i diogelu o hynny mlaen.

**3. Casgliad**

3.1. Er gwaethaf y gwrthwynebiad, argymhellir bod y Gorchymyn Diogelu Coed yn cael ei gadarnhau yn unol ag argymhelliad Ymgynghorydd Coed y Cyngor.

**4. Argymhelliad**

4.1. Cadarnhau Gorchymyn Diogelu Coed Rhif 1 (2024) Tir yn Neuadd y Dref, Heol y Castell, Llangollen, heb addasu i ddarparu diogelwch parhaus i'r Lindyswydden (Robinia Pseudoacacia) (T1).

**Dogfennau Cefndir**

Gorchymyn Diogelu Coed Rhif 1 (2024) Tir yn Neuadd y Dref, Heol y Castell, Llangollen

Nodiadau Archwiliad yr Ymgynghorydd Coed (TEMPO) dyddiedig 18 Rhagfyr 2023

Gwrthwynebiad gan Gyngor Tref Llangollen.